Rhyddid i fyw

Y Beibl – Cariad Duw sy'n ein rhyddhau

Galwad i addoli

Darllenwch un neu ddau o'r rhannau canlynol o'r ysgrythur cyn yr alwad agoriadol i addoli:

Pan gyfarfu Duw â Moses gyntaf, dywedodd wrtho:

> Myfi yw'r Arglwydd, ac fe'ch rhyddhaf o orthrwm yr Eifftiaid a'ch gwaredu o'ch caethiwed, a'ch achub â braich estynedig ac â gweithredoedd nerthol o farn. Fe'ch cymeraf yn bobl i mi, a byddaf finnau yn Dduw i chwi. (Exodus 6.6–7)

Mae llythyr Paul at y Galatiaid yn ein hatgoffa mai:

> I ryddid y rhyddhaodd Crist ni. (Galatiaid 5.1)

Sonia llythyr Paul at y Rhufeiniaid am y gobaith sicr

> ... y câi'r greadigaeth hithau ei rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth, a'i dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw. (Rhufeiniaid 8.21)

Galwad i addoli ymatebol (teip ysgafn i'r arweinydd, teip bras i bawb):

Dewch, gadewch i ni gyfarfod heddiw gyda'r Arglwydd gogoneddus

A'n creodd, a'n gwaredodd, ac sydd yn ein rhyddhau.

Gadewch i ni agor ein clustiau i ddysgu o'i Air,

A chodi ein lleisiau i foli a chlodfori ein Duw.

Agor ein calonnau i dderbyn cariad Crist

A rhoi'r cwbl ydym i gael ein nerthu gan ryddid yr Ysbryd.

Yn enw Iesu. Amen.

[Gellir defnyddio'r gweddïau hyn heb eu newid, neu gallwch eu haddasu a'u defnyddio i symbylu gweddïau tebyg yn eich geiriau eich hun.]

Addoliad a chyffesu

Geiriau'r arweinydd yw'r teip ysgafn; mae ymateb y gynulleidfa mewn teip bras.

Arglwydd Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu, ein Gwaredwr mawr a'n rhyddhäwr.

Diolchwn am y rhyddid yr wyt yn ei roi i ni:

Y rhyddid i gael ein galw'n blant i ti.

Y rhyddid i gyfarfod fel dy bobl, o bob cefndir, oed, a hil.

Y rhyddid i glywed dy Air yn ein hiaith, a deall beth yw dy adnabod a'th ddilyn di.

Diolchwn am ddrws agored dy faddeuant, sy'n gyfle i ni ddechrau o'r newydd pan syrthiwn yn fyr o'r cwbl yr wyt yn dymuno ar ein cyfer.

Gwahoddwch y gynulleidfa i rannu ennyd o dawelwch, gan ofyn iddynt feddwl am yr adegau pan yr ydym wedi camddefnyddio'r rhyddid a roddodd Duw i ni, a dilyn ein ffyrdd ein hunain yn hytrach na'i ffyrdd ef.

Dywedwn gyda'n gilydd:

Maddau i ni, Arglwydd, am yr adegau pan yr ydym wedi camddefnyddio ein rhyddid.

Maddau i ni pan yr ydym wedi brifo eraill yn hytrach na'u rhyddhau.

Cymdeithas y Beibl Stonehill Green Westlea Swindon SN5 7DG
Ffon: 01793 418100 Ffacs: 01793 418118 biblesociety.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig 232759 © Cymdeithas y Beibl 2010

Maddau i ni pan fod ofn neu ddiogi wedi ein dal yn ôl o'th wasanaethu di mewn rhyddid.

Maddau i ni am yr adegau pan yr ydym wedi troi at bethau sy'n addo'r byd i ni, ond sy'n ein caethiwo.

Trwy'r Ysbryd, sy'n ein rhyddhau, rho nerth i ni i droi oddi wrth bob peth sy'n anghywir, ac sy'n difetha dy lun a'th ddelw ynom ni.

Dyro i ni weld o'r newydd beth yw ystyr gwir ryddid, er mwyn i ni fyw yn llwyr yn rhyddid gogoneddus plant Duw.

Yn enw Iesu. Amen.

Gweddïau o ddiolch ac eiriolaeth

Rhyddhau'r Gair

Dduw Hollalluog, diolchwn dy fod wedi creu'r bydysawd trwy dy Air.

Diolchwn fod dy Air ysgrifenedig yn parhau i'n rhyddhau ni, yn dangos i ni sut un wyt ti, yn dangos dy gariad tuag atom, sut y dylem fyw, a'r hyn y gallwn fod.

Maddau i ni am gymryd y fraint o ddarllen a chlywed dy Air yn ganiataol, gan anghofio'r miliynau sy'n dyheu am ei neges yn eu mamiaith.

Gweddïwn dros y cyfieithwyr sy'n rhyddhau'r Gair fel gall pobl ei glywed am y tro cyntaf yn eu hiaith.

Diolchwn am ddyfalbarhad y cyfieithwyr hyn. Diolchwn yn ogystal am frwdfrydedd y bobl leol, sy'n eu helpu trwy roi cyngor a chywiro, ac sy'n tyfu yn eu hadnabyddiaeth o'r Beibl a'u dymuniad i rannu ei neges ac eraill.

Arglwydd, nertha'r bobl hyn oll i drosglwyddo'r Gair i bobl yn eu mam iaith, ac, wrth i gyfieithiadau newydd ymddangos, gweddïwn y byddant yn cael eu rhannu i bawb sy'n dyheu amdanynt.

Rydym yn diolch yn arbennig am siaradwyr Kikagulu (yngenir Kicagwrw) yn Tanzania, ac am hanes Josephine a miloedd o bobl eraill debyg iddi sydd bellach yn gallu darllen y Beibl, neu ei glywed yn cael ei ddarllen a'i ddysgu, yn eu mam iaith.

Bydded iddynt brofi cynnydd yn y rhyddid a ddaw o'th adnabod di, a byw er dy fwyn bob dydd, ym mhob her a thrwy bob cyfle a wynebant.

Y Caeth

Arglwydd, wrth i ni feddwl am rym dy Air i ryddhau'r caeth, gweddïwn yn ogystal am y rheiny sydd wedi eu caethiwo – boed hynny gan sefyllfaoedd y tu hwnt i'w rheolaeth, gan salwch corfforol, yn eu hysbryd neu eu meddwl [gallwch enwi unigolion sy'n adnabyddus i'ch cynulleidfa yma]. Arglwydd, caniatâ iddynt weld dy gariad a'th rym o'r newydd, fel y gallant gymryd camau newydd at dy ryddid di.

Gweddïwn am bawb sydd yng ngharchar, ac yn benodol y rheiny sy'n gaeth oherwydd eu ffydd, neu eu cydwybod, ynghyd a'r rheiny sydd yng ngharchar o ganlyniad i'w gweithredoedd eu hunain. Gweddïwn dros gaplaniaid a'r rhai sy'n ymweld â charchardai, a thros waith Cymdeithas y Beibl o roi Beiblau i garcharorion yn y wlad hon a thramor.

O Arglwydd sy'n rhyddhau'r caeth, rho nerth i bobl i droi oddi wrth fywydau dinistriol. Rhyddha hwy o bob caethiwed, rho gymorth iddynt wrthsefyll y pwysau sy'n dod â hwy i'r sefyllfaoedd hynny, a rhyddha hwy i'th ddilyn di.

Cyfiawnder a rhyddid

Dduw rhyddid, sy'n torri cadwynau anghyfiawnder, gweddïwn yn erbyn pob anghyfiawnder yn ein byd heddiw [gallwch gyfeirio at esiamplau cyfoes yma]. Gweddïwn dros ein harweinwyr, yn y llywodraeth, ym myd busnes, yn y cyfryngau, a phob swydd o rym a dylanwad. Rho ostyngeiddrwydd a doethineb iddynt, er mwyn iddynt weithredu yn gyfiawn ac yn deg, ac i ddilyn esiampl Iesu, a ddaeth yn was i bawb.

Rho nerth i ni, Arglwydd Iesu, i gerdded gyda thi o blaid rhyddid a chyfiawnder, i wrthdystio

ac i weithredu yn erbyn popeth sy'n caethiwo, ac i drin pawb â'r urddas sy'n eiddo iddynt fel pobl wedi eu creu ar dy lun a'th ddelw dy hun.

Gofynnwn y pethau hyn oll yn dy enw nerthol. Amen.

Gallwch derfynu'r cyfnod hwn trwy gydadrodd gweddi'r Arglwydd.

Bendith i gloi

Arweinydd: Boed i Dduw'r Tad, Duw'r Mab a Duw'r Ysbryd, fod gyda ni.

Ymateb: I ryddid y rhyddhaodd Crist ni. Gadewch i ni gofleidio gwir ryddid yng Nghrist, a boed i ni rannu'r newyddion da ar air a gweithred gyda phawb.

Yn enw Iesu. Amen.

Ysgrifennwyd y gweddïau hyn gan Lindsay Shaw, Swyddog Adnoddau Creadigol Cymdeithas y Beibl.